Senedd Cymru
Cysylltiadau Rhyngwladol

69ain Cyfarfod Llawn BIPA Sheffield

18-20 Hydref

Aeth Aelodau o'r Senedd i 69ain Cyfarfod Llawn BIPA yn Sheffield rhwng 18-20 Hydref, a gynhaliwyd ar y thema o ***Dyfodol a Rennir: Partneriaeth Ddemocrataidd a Llwyddiant Polisi ar draws Ynysoedd Prydain ac Iwerddon***. Aeth dirprwyaeth BIPA y Senedd, dan arweiniad y Dirprwy Lywydd Kerry Ferguson AS, i sesiynau ar ddatganoli, cyfranogiad ieuenctid, a Chynulliad y Baltig, a chlywodd anerchiadau gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU dros Ogledd Iwerddon, Sarah Owen AS, Llysgennad Iwerddon i Brydain Fawr Sonja Hyland a Llysgennad Prydain i Iwerddon Kara Owen yn ystod y Cyfarfod Llawn.



Aelodau Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon yn y 69ain Cyfarfod Llawn yn Sheffield

Hwn oedd y Cyfarfod Llawn cyntaf a gynhaliwyd ers yr etholiadau ym mis Mai a rhoddodd gyfle i'r aelodau fynd i gyfarfodydd eu Pwyllgorau BIPA, rhai ohonynt am y tro cyntaf, cyfarfod â chymheiriaid o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon, a thynnu sylw at y cysylltiadau cryf parhaus rhwng Cymru ac Iwerddon ar lawr y Cyfarfod Llawn. Cyfeiriodd aelodau BIPA o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol at Fil Helyntion Gogledd Iwerddon a oedd yn mynd rhagddo drwy Dŷ'r Cyffredin, gan dynnu sylw at effeithiau parhaus yr Helyntion a phrofiadau dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd.

Dirprwyaeth BIPA y Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd yw:

- Kerry Ferguson AS, y Dirprwy Lywydd
- Darren Millar AS
- Elyn Stephens AS
- Jayne Bryant AS
- Claire Archibald AS

Rhaglen y Cyfarfod Llawn

CYNULLIAD SENEDDOL PRYDAIN AC IWERDDON

69ain CYFARFOD LLAWN

Gwesty voco, Sheffield, De Swydd Efrog, 19 a 20 Hydref 2026

RHAGLEN BUSNES

Dyfodol a Rennir: Partneriaeth Ddemocrataidd a Llwyddiant Polisi ar draws Ynysoedd Prydain ac Iwerddon

DYDD LLUN 19 HYDREF 2026

1. AGORIAD Y SESIWN LLAWN

2. MABWYSIADU'R RHAGLEN FUSNES ARFAETHEDIG

3. PARTNERIAETH DDEMOCRATIAIDD AR DRAWS YNYSYDD PRYDAIN AC IWERDDON: ANERCHIAD

Bydd **Sarah Owen AS**, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU dros Ogledd Iwerddon, yn annerch y Cynulliad ac yn ymateb i gwestiynau.

4. PARTNERIAETH DDEMOCRATIAIDD AR DRAWS YNYSYDD PRYDAIN AC IWERDDON: DADL AR GYNNIG

Y Pwyllgor Llywio

Bod y Cynulliad wedi ystyried partneriaeth ddemocrataidd ar draws Ynysoedd Prydain ac Iwerddon.

5. ARLOESI, SGILIAU A THWF RHANBARTHOL: GWERSI O SHEFFIELD

*I'w gadarnhau: Bydd yr **Athro Ben Morgan**, Prif Swyddog Gweithredol, y Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC), Prifysgol Sheffield, yn rhoi cyflwyniad i'r Cynulliad ac yn ymateb i gwestiynau.*

6. CRYFHAU CYDWEITHREDIAD RHWNG CYNULLIAD Y BALTIG A CHYNULLIAD SENEDDOL PRYDAIN AC IWERDDON: BLAENORIAETHAU A DATBLYGIADAU PRESENNOL YNG NGWLEDYDD Y BALTIG

Bydd **Mr Giedrius Drukteinis**, Is-lywydd Cynulliad y Baltig, yn annerch y Cynulliad ac yn ymateb i gwestiynau a sylwadau.

7. DATGANOLI, ARWEINYDDIAETH LEOL A SICRHAU NEWID

Bydd y **Gwir Anrhydeddus Athro John Denham FRSA**, cyn Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Gymunedau a Llywodraeth Leol a Chyfarwyddwr y Ganolfan Hunaniaeth a Gwleidyddiaeth Seisnig, Prifysgol Southampton, yn annerch y Cynulliad.

8. ADRODDIADAU PWYLLGORAU. ETC

ADRODDIAD CYNNYDD GAN BWYLLGOR A (Diogelwch, Cyfiawnder a Materion Byd-eang)

Y Seneddwr Niall Blaney

ADRODDIAD CYNNYDD GAN BWYLLGOR B (Hinsawdd, Ynni, Gwyddoniaeth a Thechnoleg)

Darren Millar AS

ADRODDIAD CYNNYDD GAN BWYLLGOR C (Twf, Masnach a Buddsoddi)

Sinéad Gibney TD

ADRODDIAD CYNNYDD GAN BWYLLGOR D (Pobl a Diwylliannau)

Yr Arglwydd Dubs

ADRODDIAD CYNNYDD GAN Y PWYLLGOR LLYWIO

Y Cyd-gadeiryddion

9. TRAFODAETH BANEL: SUT BETH YW LLYWODRAETHU DA: DEALL LLWYDDIANT POLISÏAU

*Trafodaeth banel gyda'r **Athro Liz Richardson**, Athro Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phennaeth y Ddisgyblaeth Gwleidyddiaeth, Prifysgol Manceinion; yr **Athro Catherine Durose**, Athro Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Lerpwl; **Dr Ian C. Elliott**, Uwch-ddarlithydd mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y Ganolfan Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Glasgow*

*Cymedrolwr: Yr **Athro Matthew Flinders**, Athro Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus, Prifysgol Birmingham, (gynt o Brifysgol Sheffield).*

Bydd aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar y drafodaeth.

Bydd sesiynau'r dydd yn dod i ben erbyn 5.00 pm fan bellaf.

DYDD MAWRTH 20 HYDREF 2026

10. PAM MAE RHAI GWLADWRIAETHAU SY'N UNDEB YN PARHAU AC ERAILL YN CHWALU?

Bydd yr Athro Alvin Jackson FBA FRSE Hon. MRIA MAE, Athro Childers mewn Hanes Iwerddon a Chymrawd yng Ngholeg Crist, Prifysgol Caergrawnt, yn annerch y Cynulliad ac yn ymateb i gwestiynau.

15. LLAIS POBL IFANC A CHYFRANOGIAD DEMOCRATAIDD

Bydd aelodau Pwyllgor Dethol Ieuenctid y DU yn annerch y Cynulliad.

16. MATERION CYFOES: DADL AR GYNNIG

Y Pwyllgor Llywio

Bod y Cynulliad wedi ystyried datblygiadau gwleidyddol diweddar.

Dim hwyrach na 12.25 pm

17. GOHIRIO

Y Pwyllgor Llywio

Bod y Cynulliad yn cael ei ohirio yn awr.